# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 08.09.21 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Kevin Goodchild (Cadeirydd), Dylan Thomas, Geraint Edwards, Huw Davies, Geraint Micah, Jenny Warne, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Ian Williams, Keith Carroll, David Griffiths, John Griffiths.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y **11.08.21** fel rhai cywir.
   **Cynnig** – Geraint Micah **Eilio** – Geraint Edwards **Arwyddwyd** – Kevin Goodchild.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (11.08.21):**

   a) **LLwybr i'r traeth ger Llwybr y Perthi/Borthwen -** Tri pris wedi eu derbyn i wneud y gwaith ar geg yr afon ger Llwybr y Perthi. Cafodd yr amlenni eu hagor yn y cyfarfod.
   Geraint Micah oedd wedi cyflwyno'r pris gorau felly cynigwyd y contract iddo fo.

   - *Geraint Micah wedi datgan diddordeb, ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy lenwi ag arwyddo' r ffurflen addas. Ni chymerodd ran yn y drafodaeth, gadawodd y cyfarfod tra bod y lleill yn trafod.*

5. **Gohebiaeth:**

   a) **Fframwaith Adfywio Cyngor Gwynedd - Ardal Ni 2035 -** derbyn y wybodaeth ynglŷn â'r prosiect yma
   **Penderfyniad** ➞ Cyngor Cymuned Llangelynnin ddim yn barod i gymryd rhan yn y prosiect yma ar hyn o bryd.

   b) **Ail-wynebu ffyrdd -** cwyn wedi ei dderbyn (gan deulu ar eu gwyliau) ynglŷn â chyflwr y ffyrdd yn yr ardal.

   c) **Ffermwyr Ifanc Meirionnydd –** derbyn llythyr i ddiolch am y cyfraniad ariannol gan y Cyngor Cymuned.

   d) **Offer ffitrwydd i'r cae chwarae yn Llwyngwril –** llythyr wedi ei dderbyn gan aelod o'r gymuned yn cynnig cyfraniad ariannol i brynu offer ffitrwydd i'w gosod yn y cae chwarae.
   **Penderfyniad** ➞ anfon llythyr i dderbyn y cynnig hael yma ac i ddiolch iddynt. Trefnu ymweliad safle gyda'r cwmni Fresh Air Fitness i drafod ymhellach.

6. **Materion Cynllunio:**

   a) **NP5/69/LB54G – Garthangharad, Llwyngwril:**
   Caniatâd Adeilad Rhestredig i amnewid arwyddion a goleuadau allanol
   **Penderfyniad** ➞ Dim gwrthwynebiad na sylwadau i'w cyflwyno i Barc Cenedlaethol Eryri.

   b) **NP5/69/LBAD54F - Garthangharad, Llwyngwril:**
   cais am ganiatâd arddangos hysbysebion i amnewid arwyddion sydd wedi'u goleuo'n allanol heb eu goleuo
   **Penderfyniad** ➞ Dim gwrthwynebiad na sylwadau i'w cyflwyno i Barc Cenedlaethol Eryri.

c) **NP5/69/394F – Wendy's Llwyngwril:**
Amrywio amod rhif 2 o ganiatâd cynllunio NP5/69/394E dyddiedig 29.03.21 i ddiwygio cynlluniau llawr, cyfluniad ffenestri, adolygu cynllun y to a balconïau a symud yr adeilad 750mm i'r de-orllewin
**Penderfyniad** ➞ Dim gwrthwynebiad na sylwadau i'w cyflwyno i Barc Cenedlaethol Eryri.

d) **NP5/69/405A – The Burf, Llwyngwril:**
Adeiladu estyniad dormer blaen a chefn, balcony llawr cyntaf ar yr edrychiad cefn a ffenest fwa ychwanegol ar yr edrychiad blaen
**Penderfyniad** ➞ Dim gwrthwynebiad na sylwadau i'w cyflwyno i Barc Cenedlaethol Eryri.

e) **NP5/69/374A – Parth y Gwyddwch, Llwyngwril:**
Trosi adeilad allanol yn llety gosod gwyliau
**Penderfyniad** ➞ Dim gwrthwynebiad na sylwadau i'w cyflwyno i Barc Cenedlaethol Eryri.

f) **NP5/69/410A – Pentre Bach, Llwyngwril:**
Adeiladu estyniad i'r cefn, ports ar y blaen ac amnewid ffenest to
**Penderfyniad** ➞ Dim gwrthwynebiad na sylwadau i'w cyflwyno i Barc Cenedlaethol Eryri.

g) **NP5/69/352C – Plot 2 Gwynfryn, Llwyngwril:**
Adeiladu tŷ deulawr yn lle byngalo a gymeradwywyd yn flaenorol
**Penderfyniad** ➞ hysbysu'r Parc Cenedlaethol Eryri fod y Cyngor Cymuned wedi cael gwybod bod trigolion Ffordd Celynnin, ger Plot 2 Gwynfryn, wedi lleisio eu gwrthwynebiad cryf i'r cais hwn ar y sail nad ydynt yn hapus gyda'r newid cynlluniau, a hoffent i'r gwrthwynebiad gael ei ystyried wrth drafod y cais hwn yn eu pwyllgor cynllunio.

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad Ariannol wedi ei wneud.
Derbyniwyd Adroddiad Mis Awst 2021 yn gywir.
**Cynnig –** Huw Davies **Eilio –** Jenny Warne **Arwyddwyd –** Kevin Goodchild.
   a) **Llygad y Dydd** - derbynneb am y taliad o £10.00.
   b) **Praesept wedi ei dderbyn** (24.08.21) am 6 mis - £4,900.00.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim.

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Derbyn adroddiad Louise Hughes.
   - Bydd llwybr cerdded Pont y Bermo, a'r rheilffordd rhwng Machynlleth a Bermo, ar gau Mis Hydref 2021 tra bod Network Rail yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar y bont.

10. **Unrhyw Fater Arall:**
   a) **Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambren - 01.10.21 -** adroddiad wedi ei chyflwyno i'r pwyllgor yma i ofyn i Network Rail am fwy o fanylion, ac yn enwedig PRYD fydd y gwaith ar y rhwystrau diogelwch ar y ffordd rhwng Llwyngwril a Friog yn cael ei wneud gan Network Rail ?
   **Penderfyniad** ➞ gofyn i Louise Hughes cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar y gynhadledd yma, i bwysleisio'r pwysigrwydd i gael y gwaith ar y rhwystrau diogelwch wedi ei wneud mor fuan â phosib, gan Network Rail. Gofyn i Louise Hughes adrodd yn ôl i'r aelodau yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned, ac efallai wedyn trafod mynd a'r mater ymhellach drwy gysylltu â'r cyfryngau ……… **???**

   b) **Asesiad Risg Cofid-19** – wedi ei baratoi er mwyn i'r Cyngor Cymuned allu defnyddio Y Ganolfan yn ddiogel, yn dilyn rheolau diogelwch Cofid-19.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 13.10.21 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………… Dyddiad : 13.10.31**